Gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth

Gorffennaf 2009

Y Gwasanaeth Pensiwn

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau



Cynnwys

Beth yw ystyr gohirio fy Mhensiwn y Wladwriaeth? . . . . . Tudalen 4

Beth yw fy opsiynau? . . . . . Tudalen 4

Faint o arian ychwanegol y gallwn ei gael? . . . . . Tudalen 5

Pensiwn y Wladwriaeth Ychwanegol Wythnosol . . Tudalen 6

Cyfandaliad yn hytrach na Phensiwn y Wladwriaeth ychwanegol wythnosol. . . . . Tudalen 6

Sut ydw i'n penderfynu a yw gohirio fy Mhensiwn y Wladwriaeth yn addas i mi? . . . . . Tudalen 9

Beth os wyf yn cael budd daliadau eraill? . . . . . Tudalen 10

Beth os wyf yn cael Cynnydd Dibyniaeth Oedolion? . . . . . Tudalen 11

Sut y gallaf oedi cyn gwneud cais am fy Mhensiwn y Wladwriaeth? . . . . . Tudalen 12

Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth? . . . . . Tudalen 12

Cost galwadau . . . . . Tudalen 13

Ffonau testun . . . . . Tudalen 13

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar ein gwefan yn:

www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk

Beth yw ystyr gohirio fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

Efallai nad ydych am hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth cyn gynted ag y gallwch. Felly gallwch ohirio eich cais. Mae hyn yn golygu oedi nes ei bod yn addas i chi. Yna, pan fyddwch yn gwneud cais, gallech gael mwy o arian. Gallwn ei dalu fel cyfanswm wythnosol ychwanegol neu gyfandaliad.

Mae hyn hefyd yn wir os ydych eisoes yn cael Pensiwn y Wladwriaeth. Gallwch roi'r gorau i'w hawlio, ei ail-ddechrau yn nes ymlaen, a chael mwy o arian. Ond gallwch ond gwneud hyn unwaith.

Beth yw fy opsiynau?

Gallwch ddewis pryd rydych am ddechrau hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Ar hyn o bryd, gallwch wneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth pan fyddwch yn 60 oed os ydych yn ferch a aned ar neu cyn 5 Ebrill 1950, a phan fyddwch yn 65 oed os ydych yn ddyn.

Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched yn codi i 65 rhwng 2010 a 2020. Os ydych yn ferch a aned rhwng 6 Ebrill 1950 a 5 Ebrill 1955, bydd eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn dibynnu ar eich dyddiad geni.

O 6 Ebrill 2020, bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched yr un peth â dynion. Gallwch ddefnyddio cyfrifiannell oedran Pensiwn y Wladwriaeth i weithio eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth allan. Ar ein gwefan yn **www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk**

O 2024, bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion a merched yn codi'n raddol o 65 gan gyrraedd 68 yn 2046.

Eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth yw'r oedran cynharaf y gallwch ddechrau cael eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Bryd hynny, os ydych yn gweithio, mae gennych bedwar dewis:

- Parhau i weithio a chael eich Pensiwn y Wladwriaeth.
- Parhau i weithio a gohirio eich hawl i Bensiwn y Wladwriaeth.
- Rhoi'r gorau i weithio a chael eich Pensiwn y Wladwriaeth.
- Rhoi'r gorau i weithio ac oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Os nad ydych yn gweithio mae gennych ddau ddewis:

- Dechrau cael eich Pensiwn y Wladwriaeth.
- Oedi cyn gwneud cais amdano.

Os ydych eisoes yn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth, gallwch ddewis rhoi'r gorau i'w gael am gyfnod er mwyn cronni mwy o arian ar gyfer y dyfodol. Ond gallwch ond gwneud hyn unwaith.

Os byddwch yn dewis gweithio am hyd yn oed blwyddyn neu ddwy yn hirach gall hyn roi mwy o arian i chi ar gyfer eich dyfodol. Mae llawer o bobl yn disgwyl gwneud hyn oni bai bod ganddynt gynilion a buddsoddiadau a fydd yn rhoi digon o arian iddynt i'w galluogi i ymddeol.

Gweler tudalennau 10-11 i weld sut y gall oedi cyn gwneud cais effeithio ar eich budd-daliadau eraill gan gynnwys Cynnydd Dibyniaeth Oedolion.

Faint o arian ychwanegol y gallwn ei gael?

Mae swm yr arian ychwanegol yn dibynnu ar ddau beth:

- faint y byddech yn ei gael pe baech yn gwneud cais ar oedran Pensiwn y Wladwriaeth, a
- pa mor hir y byddech yn oedi cyn gwneud cais amdano.

Mae'n bosibl y gallech ddewis un o'r canlynol:

- Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol bob wythnos am weddill eich oes tra byddwch yn hawlio
- cyfandaliad unigol.

Y naill ffordd neu'r llall, bydd yr arian yn drethadwy.

Pensiwn y Wladwriaeth wythnosol ychwanegol

Os ydych am gael Pensiwn y Wladwriaeth wythnosol ychwanegol, rhaid i chi oedi cyn gwneud cais am o leiaf bum wythnos.

Am bob blwyddyn lawn y byddwch yn oedi cyn gwneud cais, gallech gael £1 ychwanegol yr wythnos, am weddill eich oes, am bob £10 o Bensiwn y Wladwriaeth a gewch.

Caiff eich Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol ei gyfrif fel unrhyw incwm arall ar gyfer Credyd Pensiwn, Budd-dal Tai, Budd-dal Treth Cyngor a chredydau treth.

I gymharu'r swm wythnosol ychwanegol gyda'r cyfandaliad y gallech ei gael pe baech yn oedi cyn gwneud cais am o leiaf flwyddyn, gweler yr adran nesaf a'r blwch 'Enghreifftiau o'ch opsiynau'.

Cael cyfandaliad yn hytrach na phensiwn y Wladwriaeth ychwanegol wythnosol

Os byddwch yn oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth yn barhaus am o leiaf flwyddyn, gallwch ddewis i gael eich arian ychwanegol wedi'i dalu fel cyfandaliad trethadwy. Bydd y cyfandaliad yn seiliedig ar yr hyn y byddech wedi'i gael pe baech wedi bod yn hawlio. Byddwch hefyd yn cael llog ar yr arian sydd o leiaf 2% yn uwch na chyfradd sylfaenol Banc Lloegr. Pan fyddwch yn dechrau hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth, byddwn yn ei dalu ar y gyfradd arferol.

Os dewiswch gymryd cyfandaliad:

- efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth arno - mae hyn yn dibynnu ar unrhyw incwm arall a allai fod gennych, ac
- ni fydd yn effeithio ar unrhyw Gredyd Pensiwn, Budd-dal Tai na Budd-dal Treth Cyngor a gewch.

Gweler y blwch 'Enghreifftiau o'ch opsiynau'.

Enghreifftiau o'ch opsiynau

Pensiwn y Wladwriaeth wythnosol ychwanegol

Os yw eich Pensiwn y Wladwriaeth yn £95.30 yr wythnos a'ch bod yn oedi cyn gwneud cais am ddwy flynedd, gallech gael Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol o tua £19.80 yr wythnos am eich bywyd - a fyddai'n golygu cyfanswm o £115.10 o Bensiwn y Wladwriaeth yr wythnos.

Cyfandaliad

Os yw eich Pensiwn y Wladwriaeth yn £95.30 yr wythnos a'ch bod yn oedi cyn gwneud cais am ddwy flynedd, gallech gael cyfandaliad o tua £10,160 (cyn treth), yn ogystal â'ch Pensiwn y Wladwriaeth wythnosol o £95.30.

Mae'r tabl hwn yn dangos sut y gall cyfandaliad gronni os bydd rhywun yn oedi cyn gwneud cais. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar Bensiwn y Wladwriaeth o dros £100 yr wythnos (£5,200 y flwyddyn). Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £10 agosaf ac yn tybio cyfradd llog o 2.5%. Gallech gael mwy neu lai na'r hyn a ddangosir yma; bydd yn dibynnu ar eich Pensiwn y Wladwriaeth gwirioneddol a'r gyfradd llog sy'n daladwy.

Eich Pensiwn y Wladwriaeth		Nifer y blynyddoedd rydych yn oedi cyn gwneud cais	Cyfandaliad (cyn unrhyw dreth)
Bob wythnos	Bob wythnos		
£100	£5,200	1	£5,270
		2	£10,660
		3	£16,200
		4	£21,870
		5	£27,680

(Nid yw'r ffigurau yn y blwch hwn yn dangos unrhyw newidiadau mewn cyfraddau budd-dal neu gyfraddau llog a allai ddigwydd dros y cyfnod rydych yn oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth, ac nid ydynt yn cynnwys addasiadau sy'n ystyried chwyddiant. Mae ffigurau wythnosol wedi'u cronni i'r £100 agosaf.)

Sut ydw i'n penderfynu a yw gohirio fy Mhensiwn y Wladwriaeth yn addas i mi?

Cael rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth

I'ch helpu i benderfynu p'un a ddylech oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth, dylech gael rhagolwg pensiwn. Ar gyfraddau heddiw, mae'n dweud y canlynol wrthych:

- faint o Bensiwn y Wladwriaeth y gallech ei gael yn seiliedig ar eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol hyd yn hyn, a
- Pensiwn y Wladwriaeth y gallech ei gael pan wnewch gais.

Rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth ar-lein

Gallwch gael rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth o'n gwefan, **www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk.** Cliciwch ar 'rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth' a dilyn y cyswllt i'r 'E-wasanaeth rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth'. Cyn i chi allu cael rhagolwg ar-lein bydd angen i chi gofrestru gyda Phorth y Llywodraeth a chofrestru ar gyfer e-wasanaeth rhagolygon Pensiwn y Wladwriaeth.

Fodd bynnag, os ydych yn wraig weddw, yn ŵr gweddw neu'n bartner sifil sy'n goroesi, ni allwch gael rhagolwg drwy ein gwefan. Mae hyn oherwydd y gall rhagolygon Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer gwragedd gweddw, gwŷr gweddw a phartneriaid sifil sy'n goroesi gael eu selio ar gofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol eu diweddar bartner. Gan fod nifer o ffactorau amrywiol yn penderfynu ar y swm o Bensiwn y Wladwriaeth a allai fod yn daladwy i wragedd gweddw a phartneriaid sifil, mae'n ei wneud yn anaddas i'r gwasanaeth ar-lein. Yn hytrach, gall gwragedd gweddw a phartneriaid sifil sy'n goroesi gael rhagolwg pensiwn unigol dros y ffôn neu drwy'r post - gweler isod. Bydd y rhagolwg yn seiliedig gofnod Yswiriant Gwladol chi a'ch partner.

Rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth dros y ffôn neu drwy'r post

Ffoniwch y Tîm Rhagolygon Pensiwn y Wladwriaeth ar 0845 3000 168 (Ffôn testun: 0845 3000 169). Neu cwblhewch y ffurflen gais BR19, y gallwch ei chael o: www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk/rhagolwgpensiwnywladwriaeth/home.asp

Beth os wyf yn cael budd-daliadau eraill?

Os ydych yn oedi cyn gwneud cais am Bensiwn y Wladwriaeth tra'n cael budd-daliadau eraill, ni fyddwch yn cronni unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad ar gyfer y diwrnodau rydych yn cael y budd-dal arall. Y budd-daliadau eraill hyn yw:

- Lwfans Gofalwr
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Atodiad i'r Anghyflogadwy
- Pensiwn Gwraig Weddw
- Lwfans Mam Weddw
- Budd-dal Analluogrwydd tymor byr, a
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau.

Os byddwch yn gwneud cais am Gredyd Pensiwn tra byddwch yn oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth, byddwn yn gweithio eich Credydau Pensiwn allan fel petaech yn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth. Ni allwn dalu Credyd Pensiwn yn lle'r Pensiwn y Wladwriaeth rydych wedi dewis oedi cyn gwneud cais amdano.

Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn ein canllaw manwl i ohirio Pensiwn y Wladwriaeth, neu ewch i www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk

Beth os wyf yn cael Cynnydd Dibyniaeth Oedolion?

Mae cynnydd Dibyniaeth Oedolion yn swm ychwanegol o Bensiwn y Wladwriaeth y gallwch ei dalu os yw eich gwraig, gŵr neu rywun sy'n gofalu am eich plant yn dibynnu arnoch yn ariannol. Gallech gael hwn cyhyd â'ch bod chi a'r 'oedolyn dibynnol' yn bodloni amodau penodol.

O 6 Ebrill 2010, ni fyddwch yn gallu gwneud cais newydd am Gynnydd Dibyniaeth Oedolion. Os oes gennych eisoes hawl i'r cynnydd hwn ar 5 Ebrill 2010, byddwch yn gallu ei gadw tan nad ydych yn bodloni'r amodau ar gyfer y cynnydd mwyach, neu tan 5 Ebrill 2020, p'un bynnag a fydd gyntaf.

Os byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2010 ond eich bod wedi oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth nes dyddiad hwyrach, ni fyddwch yn gallu hawlio Cynnydd Dibyniaeth Oedolion. Mae hyn oherwydd na allwch wneud cais i gael y cynnydd hwn cyn eich bod wedi dechrau hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Am ragor o wybodaeth am y Cynnydd Dibyniaeth Oedolion ewch i'n gwefan yn **www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk**

Sut ydw i'n penderfynu beth sy'n addas i mi?

Gallai gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth fod yn addas i chi os ydych am gronni Pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu os oes yn well gennych barhau i weithio i gael mwy o arian yn nes ymlaen. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth ewch i:

- **www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk** i gael rhagor o wybodaeth
- darllenwch ein canllaw manylach i ohirio Pensiwn y Wladwriaeth, taflen SPD1, a
- ceisiwch gael cyngor gan arbenigwr ariannol, ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am hyn.

Sut y gallaf oedi cyn gwneud cais am fy Mhensiwn y Wladwriaeth?

Os nad ydych wedi dechrau hawlio Pensiwn y Wladwriaeth, nid oes angen i chi ddweud wrthym eich bod am oedi cyn gwneud cais. Ond os ydych yn cael budd-dal nawdd cymdeithasol arall, mae angen i chi ddweud wrthym beth rydych am ei wneud.

Os ydych eisoes yn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth ond eich bod am roi'r gorau i'w gael am ychydig, dim ond unwaith y gallwch ddewis gwneud hyn. Ceir manylion am sut i gysylltu â ni isod.

Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Am ymholiadau cyffredinol am bensiynau, cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn.

- Ffôn: **0845 60 60 265**
  (**0845 60 60 275** ar gyfer cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg ac yn byw yng Nghymru)
- Ffôn testun: **0845 60 60 285**
  (**0845 60 60 295** am ffôn testun Cymraeg)
- Gwefan: **www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk**

Mae'r llinellau ar agor o 8am i 8pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf, gallwch ddefnyddio eich cyfieithydd eich hun neu gallwn ddarparu un. Mae ein llinellau ffôn yn dueddol o fod yn dawelach yn ystod y prynhawn ac ar ddydd Mawrth a dydd Gwener, os oes yn well gennych ffonio bryd hynny.

Rydym yn recordio galwadau ffôn i'n helpu i ddarparu gwasanaeth cywir a chyson a'n helpu i hyfforddi ein staff.

Nid yw'r trefniadau hyn yn cynnwys galwadau o Ogledd Iwerddon.

Os byddwch yn ffonio o dramor, cysylltwch â'r darparwr gwasanaeth ffôn i gael manylion y taliadau. Gallwn eich ffonio yn ôl os byddwch yn gofyn i ni wneud hynny.

Cost galwadau

Roedd y taliadau'n gywir ar y dyddiad ar gefn y daflen hon.

Mae galwadau i rifau **0800** am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau i rifau **0845** o linellau daear BT gostio mwy na 4c y funud a 3c am sefydlu'r alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau i rifau **0870** o linellau daear BT gostio mwy nag 8c y funud a 3c am sefydlu'r alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gallwch ofyn i'n cysylltydd eich ffonio nôl – rhowch eich rhif ffôn iddo.

Ffonau testun – os ydych yn cael anhawster gyda'ch lleferydd neu'ch clyw

Mae ein rhifau ffôn testun ar gyfer pobl na allant siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, gallech holi a oes gan eich llyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon.

Nodiadau

Nodiadau

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y daflen yn gywir ym mis Gorffennaf 2009.

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith. Rydym yn argymell eich bod yn cael cyngor annibynnol cyn gwneud penderfyniadau ariannol ar sail y daflen hon.

Mae'r daflen hon ar gael yn Saesneg ac mewn fformatau eraill: ffoniwch 0845 7 31 32 33.

Os na allwch siarad neu glywed yn glir, gallwch archebu eich taflenni o'n gwasanaeth ffôn testun ar **0845 604 0210**.

Gallwch hefyd weld y daflen hon ar y rhyngrwyd yn **www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk**

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella'r wybodaeth a roddwn, felly byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ac awgrymiadau sydd gennych. Anfonwch hwy atom yn: **leaflet.feedback@dwp.gsi.gov.uk**

Fodd bynnag, ni allwn ateb unrhyw gwestiynau am fudd-daliadau o'r cyfeiriad hwn.

ISBN: 978-1-84763-875-5
(h) Hawlfraint y Goron.
Cynhyrchwyd gan Y Gwasanaeth Pensiwn,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau.
Argraffwyd yn y DU. Mis Gorffennaf 2009. SPD2W